

Pecyn Dogfennau



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

DYDD MERCHER, 2 MEHEFIN 2021

AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD RHITHWIR O'R CYNGOR SIR A GYNHELIR AM 10.00 YB, DYDD MERCHER, 9FED MEHEFIN, 2021 ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	Kevin Thomas
Ffôn (Ilinell uniongyrchol):	01267 224027
E-bost:	kjthomas@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

AGENDA

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.
3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.
4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR:
 - 4.1 12FED MAI 2021 3 - 8
 - 4.2 19FED MAI 2021 9 - 16
5. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-
 - 5.1 GORCHMYNION DATBLYGU LLEOL DRAFFT CANOL TREFI RHYDAMAN A CHAERFYRDDIN 17 - 34
6. DERBYN ADRODDIADAU CYFARFODYDD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD AR Y DYDDIADAU CANLYNOL:
 - 6.1 26AIN EBRILL 2021 35 - 40
 - 6.2 24AIN MAI 2021 41 - 46
7. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).
8. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-
 - 8.1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB EVANS I'R CYNGHORYDD PHILIP HUGHES, AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS DIOGELU'R CYHOEDD

“Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael trafferth i gymryd camau gorfodi ynghylch troseddau parcio ar linellau melyn igam-ogam y tu allan i'n hysgolion yn Sir Gaerfyrddin gan roi plant mewn perygl o farwolaeth neu anaf difrifol.

A allaf ofyn i'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol "Beth all Cyngor Sir Caerfyrddin ei wneud i orfodi cyfyngiadau parcio y tu allan i ysgolion a sicrhau bod disgyblion ym mhob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn ddiogel wrth gyrraedd ar ddiwrnod ysgol ac wrth adael ar ddiwedd y dydd?”
9. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)
 - 9.1 PWYLLGOR CYNLLUNIO- 29AIN EBRILL 2021
 - 9.2 PWYLLGOR CRAFFU POLISI AC ADNODDAU - 30AIN EBRILL 2021
 - 9.3 PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD 21AIN MAI 2021

CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 12 MAI 2021

YN BRESENNOL: Cynghorydd I.W. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

F. Akhtar	S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom
C.A. Campbell	J.M. Charles	D.M. Cundy	S.A. Curry
C.A. Davies	W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	G. Davies
H.L. Davies	J.A. Davies	K.Davies	S.L. Davies
E. Dole	J.S. Edmunds	D.C. Evans	H.A.L. Evans
L.D. Evans	R.E. Evans	W.T. Evans	S.J.G. Gilasbey
P. Hughes-Griffiths	A.D. Harries	T.M. Higgins	J.K. Howell
P.M. Hughes	A. James	J.D. James	R. James
D.M. Jenkins	J.P. Jenkins	G.H. John	C. Jones
B.W. Jones	D. Jones	G.R. Jones	H.I. Jones
T.J. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis	K. Lloyd
K. Madge	S. Matthews	A.S.J. McPherson	E. Morgan
A.G. Morgan	S. Najmi	D. Nicholas	J.S. Phillips
D. Price	J.G. Prosser	B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone
H.B. Shepardson	A.D.T. Speake	L.M. Stephens	B. Thomas
D. Thomas	E.G. Thomas	G.B. Thomas	G. Thomas
J. Tremlett	A.Vaughan Owen	D.T. Williams	D.E. Williams
J.E. Williams			

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Rhith-Gyfarfod - 10.00 yb - 10.55 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. M. Edwards, A.L. Fox a B.D.J. Phillips.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Y Cynghorydd	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
L.D. Evans	7.2 - Cynnig y Rhaglen Moderneiddio Addysg i adleoli Ysgol Heol Goffa i safle newydd a chynyddu nifer y lleoedd o 75 i 120.	Mab-yng-nghyfraith yn gweithio yn Ysgol Heol Goffa.
L.M. Stephens	8.3 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021/22).	Aelod o'r teulu yn gymwys ar gyfer Ardrethi Busnes
H.A.L. Evans	8.1 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 (Cyfrif Refeniw Tai).	Ei chwaer yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai.
S.J. G. Gilasbey	8.1 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021 (Cyfrif Refeniw Tai).	Aelod o'r teulu'n denant i'r Cyngor
P.M. Hughes	8.3 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021/22).	Yn byw ar safle busnes.

E. Dole	8.3 - Derbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (Cynllun Rhyddhad Ardrethi Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch 2021/22).	Aelod o'r teulu yn gymwys ar gyfer Ardrethi Busnes
---------	--	--

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi ysgrifennu at Ei Mawrhydi y Frenhines i gyfleu cydymdeimlad dwysaf Cyngor Sir Caerfyrddin yn dilyn marwolaeth Ei Uchelder Brenhinol Dug Caeredin.
- Atgoffodd y Cadeirydd y Cyngor fod y Lleng Brydeinig Frenhinol, Llandeilo wedi colli ei Llywydd / Cyn-gadeirydd a'i chefnogwr gydol oes, D T Davies, OBE, MM yn 2020. Rhoddwyd gwybod bod y Lleng Brydeinig Frenhinol, Llandeilo yn codi arian ar gyfer meinciau coffa. Y bwriad yw gosod un ym Mharc Penlan, Llandeilo a'r llall yn Nryslwyn. Byddai'r meinciau yn coffáu dyn mawr a hefyd y Lleng Brydeinig Frenhinol, sy'n dathlu 100 mlynedd eleni. Byddai'r Cynghorydd Edward Thomas (Cadeirydd Cangen Llandeilo) yn croesawu unrhyw roddion.
- Rhoddwyd gwybod bod yna dân difrifol yn y tŷ yn Talar Wen, Pencarreg, ddydd Mercher, 5 Ebrill lle collodd y preswlydd bob dim, ond yn ffodus, ni chafodd hi a'i mab eu hanafu. Roedd swyddogion o'r Adran Tai wedi bod yn gweithio gyda nhw i ddod o hyd i lety arall. Mynegodd y Cadeirydd ei ddiolch diffuant i bawb oedd yn gysylltiedig â'r mater.
- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Glybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin ar eu llwyddiant diweddar wrth ennill cystadleuaeth siarad cyhoeddus Saesneg a siarad cyhoeddus Cymraeg ar lefel Cymru.
- Mynegodd y Cynghorydd Jeanette Gilasbey ei llongyfarchiadau i Jonathan Gravell ar ddod yn Uchel-Siryf nesaf Dyfed.
- Mynegodd y Cynghorydd Emlyn Dole ei longyfarchiadau i bawb a safodd yn yr etholiadau diweddar a diolchodd i'r asiantau a'u cefnogodd. Mynegwyd llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Cefin Campbell ar gael ei ethol yn Aelod o'r Senedd dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru. Croesawyd y Cynghorydd Ann Davies hefyd fel yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig.
- Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jim Jones yn ôl yn dilyn cyfnod o salwch.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR:

4.1. 3 MAWRTH 2021

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2021 yn gofnod cywir.

4.2. 10 MAWRTH 2021

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021 yn gofnod cywir.

5. YSTYRIED ENWEBU CADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2021/2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL enwebu'r Cyngorydd J. Eirwyn Williams yn Ddarpar Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.

6. YSTYRIED ENWEBU IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2021/2022

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL enwebu'r Cyngorydd K. Lloyd yn Ddarpar Is-Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2021/22.

7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

7.1. STRATEGAETH GORFFORAETHOL 2018/23 - DIWEDDARIAD EBRILL 2021

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021 (gweler cofnod 6) wedi rhoi ystyriaeth i adroddiad a oedd yn darparu gwybodaeth am yr addasiadau a wnaed i Strategaeth Gorfforaethol 2018-23 a'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018. Gwnaed yr addasiadau i adlewyrchu'r blaenoriaethau sy'n datblygu, effaith Pandemig Covid-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd.

PENDERFYNWYD mabwysiadu argymhelliad y Bwrdd Gweithredol y dylai'r Strategaeth Gorfforaethol a'r Amcanion Llesiant a fabwysiadwyd ym mis Mehefin 2018 gael eu haddasu, fel yr adroddwyd, i adlewyrchu blaenoriaethau sy'n datblygu ac effaith y pandemig Covid-19, Brexit a newid yn yr hinsawdd.

7.2. RHAGLEN MODERNEIDDIO ADDYSG - CYNNIG I ADLEOLI YSGOL HEOL GOFFA I SAFLE NEWYDD A CYNYDDU CAPASITI O 75 I 120

[SYLWER: Roedd y Cyngorydd L.D. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Rhodddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021 (gweler cofnod 6) wedi ystyried adroddiad ar gynigion i adleoli Ysgol Heol Goffa erbyn Medi 2023 i safle newydd wrth ymyl Ysgol Pen Rhos a gwblhawyd yn ddiweddar a chynyddu ei capasiti o 75 i 120.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-
ar y sail ganlynol:

- nad oes unrhyw gynigion cysylltiedig eraill;
- bod ymgynghoriad wedi'i gynnal ynghylch y cynnig statudol a chafodd ei gyhoeddi yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol ac, ar ôl ystyried y ddogfen ymgynghori a'r adroddiad ymgynghori;
- ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau mewn ymateb i'r Hysbysiad Statudol;

bod y cynigion felly i adleoli Ysgol Heol Goffa a chynyddu ei chapasiti o 75 i 120, fel y nodir yn yr Hysbysiad Statudol, yn cael eu rhoi ar waith.

7.3. CYLCH GWAITH BWRDD PENSIWN CRONFA BENSIWN DYFED

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill (gweler cofnod 6) wedi ystyried adroddiad yn diwygio Cylch Gwaith Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL y dylid mabwysiadu argymhellion y Bwrdd Gweithredol i gymeradwyo cylch gorchwyl diwygiedig Bwrdd Cronfa Bensiwn Dyfed, fel y nodwyd yn yr adroddiad, a'i gynnwys yng nghyfansoddiad y cyngor.

8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD AR:-

8.1. 22 CHWEFROR 2021

[SYLWER: Roedd y Cyngorwyr H.A.L Evans a S.J.G Gilasbey wedi datgan buddiant ar ddechrau'r eitem hon].

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2021.

8.2. 22 MAWRTH 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2021.

8.3. 12 EBRILL 2021

[SYLWER: 1. Roedd y Cyngorydd L.M. Stephens wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.

2. Roedd y Cyngorwyr P. M. Hughes ac E. Dole wedi datgan buddiant ar ddechrau'r eitem hon].

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2021.

9. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

10. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dyweddod y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan aelodau.

11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dyweddod y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 11.1 – 11.18 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

CADEIRYDD

DYDDIAD

DYDD MERCHER, 19 MAI 2021

YN BRESENNOL: Cyngorydd I.W. Davies (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

F. Akhtar	S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom
J.M. Charles	D.M. Cundy	S.A. Curry	C.A. Davies
W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	G. Davies	H.L. Davies
J.A. Davies	K.Davies	S.L. Davies	E. Dole
J.S. Edmunds	P.M. Edwards	D.C. Evans	H.A.L. Evans
L.D. Evans	W.T. Evans	S.J.G. Gilasbey	P. Hughes-Griffiths
A.D. Harries	T.M. Higgins	J.K. Howell	A. James
J.D. James	R. James	D.M. Jenkins	J.P. Jenkins
G.H. John	C. Jones	B.W. Jones	D. Jones
G.R. Jones	H.I. Jones	T.J. Jones	A. Lenny
M.J.A. Lewis	K. Lloyd	K. Madge	A.S.J. McPherson
E. Morgan	A.G. Morgan	S. Najmi	D. Nicholas
B.D.J. Phillips	J.S. Phillips	D. Price	J.G. Prosser
B.A.L. Roberts	E.M.J.G. Schiavone	H.B. Shepardson	A.D.T. Speake
L.M. Stephens	B. Thomas	D. Thomas	E.G. Thomas
G.B. Thomas	G. Thomas	J. Tremlett	A.Vaughan Owen
D.T. Williams	D.E. Williams	J.E. Williams	

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

W. Walters, Prif Weithredwr;

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;

J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau;

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;

R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;

P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);

D. Hockenull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata;

G. Morgan, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd;

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol;

J. Hawker, Swyddog Cymorth Digidol;

C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol;

A. Eynon, Prif Gyfieithydd;

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

Cyfarfod Rhithwir: 10.00 yb - 12.05 yp

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr C.A. Campbell, A.L. Fox, P.M. Hughes a S. Matthews.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. MATERION PERSONOL / CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD YMADAWOL

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr heriau yr oedd yr Awdurdod yn eu hwynebu yn ystod ei gyfnod yn y swydd a oedd, oherwydd pandemig Covid, wedi dechrau ac yn dod i ben gyda Chyfarfod Blynyddol rhithwir. Talodd deyrnged i'r holl staff a oedd wedi sicrhau bod gwasanaethau hanfodol wedi gallu parhau lle bynnag y bo modd gan ychwanegu ei fod yn meddwl am y rhai a oedd wedi colli anwyliaid yn ystod y flwyddyn.

Dywedodd nad oedd wedi gallu cynnal llawer o ymweliadau yn ystod ei gyfnod yn y swydd oherwydd cyfyngiadau Covid, er ei fod wedi gallu mynychu seremoni plannu coed yn Hendy-gwyn ar Daf ym mis Gorffennaf yn ogystal ag agor Marchnad Fforwm Glanyfferi. Roedd hefyd wedi gosod torch yng Ngwasanaeth Sul y Cofio yn Llanelli.

Mynegodd dristwch nad oedd wedi gallu ymweld â phreswylwyr yn y sir a oedd wedi dathlu eu pen-blwydd yn 100 oed nac yn gallu ymweld â chartref gofal y Cyngor yn y cyfnod cyn y Nadolig. Fodd bynnag, ei siom fwyaf oedd nad oedd wedi gallu cynnal Gwasanaeth Dinesig yn Llanybydder, sydd fel arfer yn un o uchafbwyntiau blwyddyn Cadeirydd yn ei swydd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y ffaith, er bod digwyddiad codi arian Trochfa'r Tymor Flynyddol yng Nghefn Sidan, Pen-bre, wedi'i ganslo, ei fod wedi cymryd rhan mewn taith gerdded nodedig o amgylch ei bentref a'r ardaloedd cyfagos yn ogystal â threfnu taith nofio nodedig ym Mhentywyn dros benwythnos y Pasg. Diolchodd i bawb a gyfrannodd tuag at yr elusennau a ddewiswyd ganddo – Prostrate Cancer ac Eglwys San Pedr, Llanybydder.

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi bod yn fraint gwasanaethu fel Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a diolchodd i'r Aelodau am eu cydweithrediad. Diolchodd hefyd i'w Gydymaith, y Cynghorydd Sue Allen, i'r Parchedig Wyn Maskell am wasanaethu fel ei Gaplan, Wendy Walters a Linda Rees Jones am eu cefnogaeth a'u harweiniad drwy gydol y flwyddyn, staff yn Gwasanaethau Democraidaidd a'r Gwasanaethau Cymorth i Aelodau, staff T.G. a Callum Warwick a fu'n arbennig o ddefnyddiol yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Yn olaf estynnodd ei longyfarchiadau a'i ddymuniadau gorau i'w Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Eirwyn Williams a'i Gydymaith, Mrs Joyce Williams, a dymunodd yn dda iddynt yn eu blwyddyn yn y swydd. Llongyfarchodd hefyd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Ken Lloyd a'i gydymaith, Mrs Katherine Lloyd.

4. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2021-22

Cynigiwyd gan y Cynghorydd I.W. Davies ac eiliwyd gan y Cynghorydd W.T. Evans a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd J.E. Williams yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2021/22.

Llongyfarchodd y Cynghorydd I.W. Davies y Cynghorydd Williams ar ei etholiad.

Gwnaeth y Cynghorydd Eirwyn Williams ei ddatganiad yn derbyn y swydd, ac fe'i harwisgwyd â'r Gadwyn Swyddogol.

Diolchodd y Cynghorydd Williams i'r holl Gynghorwyr am eu cefnogaeth wrth ei benodi'n Gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at ei flwyddyn yn y swydd yn cynrychioli'r cyngor ac yn cwrdd â phobl ar ôl i'r cyfyngiadau symud presennol gael eu llacio. Talodd y Cynghorydd Williams deyrnged hefyd i'r Cadeirydd sy'n ymddeol, y Cynghorydd I.W. Davies.

Talwyd teyrngedau hefyd i'r Cadeirydd sy'n Ymddeol gan Arweinwyr Grŵp Plaid Cymru, y Grŵp Annibynnol, y Grŵp Llafur a'r Grwpiau Annibynnol Newydd am y gwasanaeth rhagorol yr oedd wedi'i roi i'r Cyngor yn ystod ei flwyddyn yn y swydd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu holl eiriau caredig a dywedodd na fyddai'r Gadwyn Swyddogol yn cael ei chyflwyno i'w Gydymaith (Mrs Joyce Williams) ar y diwrnod hwnnw oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol. Gobeithio y byddai hynny'n cael ei drefnu ar gyfer y swyddogaeth seremonïol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Yn ogystal talodd y Prif Weithredwr deyrnged ar ran staff yr Awdurdod i'r Cadeirydd oedd yn Ymddeol a'i gydymaith (Y Cynghorydd Ieuan Davies a Mrs Sue Allen), a oedd wedi cyflawni'r rôl mewn modd proffesiynol dros ben gan fod yn hynod o gefnogol i waith y Cyngor. Llongyfarchodd y Cadeirydd a'r Cydymaith newydd (y Cynghorydd Eirwyn Williams a Mrs Joyce Williams), a'r Is-gadeirydd a'i Gydymaith (y Cynghorydd Ken Lloyd a Mrs Katherine Lloyd) ar eu penodiadau a dymunodd flwyddyn hapus a llwyddiannus iawn iddynt yn y swydd.

5. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2021-22

Cynigiwyd gan y Cynghorydd D. Cundy, ac eiliwyd gan y Cynghorydd K. Madge a PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Cynghorydd Ken Lloyd yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin am Flwyddyn y Cyngor 2021/22.

Llongyfarchodd y Cadeirydd yr Is-gadeirydd ar ei benodiad a dywedodd fod trefniadau wedi'u gwneud ar gyfer anfon Cadwyn Swyddogol y Cynghorydd Lloyd i'w gartref oherwydd y rheolau presennol o ran cadw pellter cymdeithasol.

Mynegodd yr Is-gadeirydd ei werthfawrogiad i'r Cyngor ar ei benodiad a gwnaeth ei ddatganiad o dderbyn y swydd.

Dywedodd y Cadeirydd na fyddai Cadwyn Swyddogol Cydymaith yr Is-gadeirydd (Mrs Katherine Lloyd) yn cael ei chyflwyno iddi ar y diwrnod hwnnw oherwydd rheolau cadw pellter cymdeithasol. Gobeithio y bydd hyn yn digwydd yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

6. DERBYN ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2020-21

Cyn cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol llongyfarchodd yr Arweinydd y Cynghorydd Gareth John ar ei benodiad yn aelod o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Cyfeiriodd at y ffaith, er bod cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithwir flwyddyn ers y Cyfarfod Blynyddol diwethaf, mai'r gobaith oedd dechrau cyfarfodydd hybrid yn fuan lle gallai aelodau a swyddogion fynychu cyfarfod yn bersonol neu ar-lein. Ar nodyn cadarnhaol croesawodd y ffaith bod 2 filiwn o bobl yng Nghymru bellach wedi cael brechiad i'w hamddiffyn rhag Covid. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda roedd 60% o'r boblogaeth wedi cael eu brechiad cyntaf ac roedd 27% wedi cael eu hail frechiad. Fodd bynnag, o ystyried newyddion am amrywiolyn Covid o India, pwysleisiodd yr angen am wylidwriaeth barhaus gan ychwanegu y byddai ymateb yr Awdurdod yn cael ei fesur a'i gymesur a'i arwain gan resymeg wyddonol. Ychwanegodd, er bod cyfyngiadau wedi cael eu llacio'n ddiweddar, y byddai'r Awdurdod yn symud ymlaen yn ofalus gan ganolbwyntio ar ddychwelyd i'r arfer o ran ailagor busnesau a gwasanaethau lleol.

Ar hynny cyflwynodd yr Arweinydd ei chweched Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2020/21 a gyflwynwyd eleni ar ffurf fideo o'r enw 'Myfyrio, Ailosod, Symud Ymlaen'. Dywedodd fod y fideo, a fyddai hefyd ar gael i'w weld ar wefan y Cyngor, yn rhoi crynodeb o'r heriau a wynebier gan y Cyngor a'r meysydd blaenoriaeth a fyddai'n cael sylw o hyn ymlaen. Roedd y fideo yn cynnwys cyfeiriadau at y canlynol:

- **Ailosod** - Ffyrdd newydd o weithio, ffyrdd newydd o wasanaethu ein preswylwyr, polisiau newydd a ffyrdd newydd o weithredu, mae'r pandemig wedi gwneud i bethau ddigwydd yn gyflymach - ac yn y rhan fwyaf o achosion roedd hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn;
- **Symud Ymlaen** - Cael economi Sir Gaerfyrddin i symud eto. Byddwn yn cefnogi busnesau i ailsefydlu a ffynnu eto. Byddwn yn creu swyddi newydd i gael pobl yn ôl i waith, a byddwn yn parhau i wireddu ein huchelgeisiau;
- **Adferiad Canol Trefi** Canol ein trefi yw lle mae pobl yn dod at ei gilydd, lle gall busnesau ffynnu a lle gall ffrindiau a theulu fwynhau eu hamser hamdden gyda'i gilydd. Yng nghanol ein holl drefi, byddwn yn parhau i weithio gyda busnesau presennol a darpar fusnesau ac yn darparu'r cyfleoedd ar gyfer twf a gwneud pethau'n wahanol;
- **Deg Tref** Ymhellach allan o'r canolfannau trefol, rydym hefyd yn canolbwyntio ar ein trefi marchnad gwledig - elfen bwysig a chyffrous o'n strategaeth adfywio gwledig, Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen;
- **Gwledig (cyffredinol) a Mart Caerfyrddin** - Creu cyfleoedd newydd i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin fel bod teuluoedd sy'n cael eu geni a'u magu yn ein cymunedau yn cael eu hannog i aros, cyfrannu a ffynnu;
- **Arfordir** - Datblygiadau arfordirol allweddol gan gynnwys y prif gynllun adfywio gwerth £7 miliwn sydd i'w gwblhau'n fuan ym Mhentywyn gydag amgueddfa ac eco-westy newydd o'r radd flaenaf ochr yn ochr â'r

promenâd newydd, a dechrau datblygiad Pentre Awel gwerth £200 miliwn yn Llanelli a fydd yn cynnwys darpariaeth ymchwil feddygol o'r radd flaenaf a gofal iechyd gan gefnogi ac yn annog pobl i fyw bywydau egniïol ac iach a chreu bron i 2,000 o swyddi a chyfleoedd hyfforddiant/prentisiaeth;

- **Seilwaith ffyrdd** – Dechrau sawl cynllun seilwaith dros y 12 mis nesaf, gan fuddsoddi miliynau o bunnoedd i wella ffyrdd, llwybrau beicio a llwybrau gan gynnwys gwella cyffordd 48 yn yr Hendy a oedd eisoes ar y gweill i leddfu tagfeydd oriau brig ar gyfer traffig sy'n ymuno â'r M4 neu'n gadael yr M4;
- **Newid yn yr hinsawdd/ailgylchu** - Fel un o'r awdurdodau lleol cyntaf yng Nghymru i ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019 a chyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd yn manylu ar sut yr ydym yn bwriadu dod yn garbon sero-net erbyn 2030, roedd ein ffocws cychwynnol ar ein hól troed carbon mesuradwy. Roedd allyriadau carbon o'n hadeiladau a'n fflyd wedi gostwng yn sylweddol eisoes ac rydym yn buddsoddi mewn pwyntiau gwefru ceir trydan i gefnogi teithio cynaliadwy ac mewn cyfleusterau beicio i annog teithio llesol; rydym yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu ffynonellau ynni adnewyddadwy, gwella ein bioamrywiaeth ac edrych ar atebion sy'n seiliedig ar natur. Byddwn yn diogelu ac yn gwella Sir Gaerfyrddin fel ei bod yn parhau i dyfu a ffynnu er budd ein cymunedau - heddiw, ac yn ein dyfodol;
- **Tlodi/tai** - Roedd y pandemig wedi dod i'r amlwg y trafferthion gwirioneddol y mae rhai pobl yn ein cymunedau yn eu hwynebu. Byddwn yn eu helpu, yn y tymor byr a'r tymor hir. Dros y 12 mis nesaf byddwn yn datblygu gwasanaeth rydym wedi'i lansio'n ddiweddar i helpu, cefnogi a chynghori pobl mewn angen - nid dim ond cyfeirio at ffynonellau cymorth uniongyrchol, ond hefyd eu harwain tuag at ddyfodol gwell drwy gefnogi eu llesiant ariannol, emosiynol a chorfforol. Rydym yn addo adeiladu 400 o gartrefi newydd ychwanegol dros y tair blynedd nesaf fel rhan o raglen fuddsoddi gwerth £260 miliwn a fydd hefyd yn creu swyddi lleol, gwella a chynnal y stoc dai bresennol, datblygu safonau newydd ar gyfer effeithlonrwydd ynni a symud tuag at gartrefi carbon niwtral. Yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd, rydym yn gwella cymunedau - gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd allweddol, fel Tyisha yn Llanelli sydd wedi dioddef dirywiad dros nifer o flynyddoedd;
- **Rhaglen Moderneiddio Addysg** - Dros y flwyddyn nesaf bydd mwy o ysgolion newydd yn cael eu hadeiladu gan gynnwys Ysgol Pen-bre ac Ysgol Heol Goffa, a'r dathliadau agoriadol swyddogol mewn sawl un arall sydd newydd eu cwblhau, gan gynnwys Ysgol Pum Heol ym Mhump-hewl, Ysgol Rhys Prichard yn Llanymddyfri, ac Ysgol Llangadog. Rydym yn parhau i fuddsoddi cannoedd o filiynau o bunnoedd drwy ein Rhaglen Moderneiddio Addysg;
- **Gofal cymdeithasol** - Byddwn yn parhau i gefnogi iechyd a llesiant pobl gyda'n nod cyffredinol o helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain, ond bod yno i gynnig cymorth os oes angen help llaw arnynt;

- **Hamdden** - Bydd mwy o gyfleoedd yn cael eu darparu i bobl fwynhau byw bywydau egniol ac iach gan gynnwys canolfannau hamdden newydd yn Llanelli a Llanymddyfri. Byddai Sir Gaerfyrddin yn cael ei hyrwyddo fel canolbwynt beicio Cymru gan ddod â mwy o feicwyr, a digwyddiadau gobeithio, i'r sir i adeiladu ar ein llwyddiannau blaenorol. Edrychwn ymlaen at ddatblygu parc sglefrio newydd i bobl ifanc yn y Gwendraeth;
- **Caffael** - Roedd cannoedd o filiynau o bunnoedd wedi'u hymrwymo o'n Rhaglen Gyfalaf i ddatblygu'r datblygiadau hyn, ac mae ein timau'n parhau i weithio'n ddiwyd i sicrhau cyllid grant o bob ffynhonnell - gan ddefnyddio pob punt posibl fel y gall Sir Gaerfyrddin elwa. Dros y 12 mis nesaf, a thu hwnt, byddwn yn sicrhau bod yr economi leol wrth wraidd caffael - gan sicrhau bod pobl leol, busnesau a chadwyni cyflenwi yn gallu cymryd rhan ac elwa o'n buddsoddiadau a'n datblygiadau. Rydym am gaffael o leiaf 70% yn lleol - a fydd yn cryfhau'r economi leol, cadw pobl mewn swyddi a chreu swyddi newydd, darparu prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi, a sicrhau bod pob ceiniog yn cyfrif;
- **Twristiaeth/ffilmio** - Roedd pobl yn dod i Sir Gaerfyrddin ar wyliau, ar gyfer ymweliadau dydd, ar gyfer teithiau busnes. Roedd y cwmnïau teledu, ffilm a drama yn paratoi i greu eu ffilmiau diweddaraf yn y lle rydym yn ei alw'n gartref - oherwydd mae gennym gymaint i'w gynnig. Gobeithio y gallaf eich annog i weld Sir Gaerfyrddin drwy eu llygaid, ac i ni drysori'r hyn sydd gennym. Gadewch i ni symud Sir Gaerfyrddin ymlaen a ffynnu.'

Cafodd Arweinwyr y Grŵp Llafur, y Grŵp Annibynnol Newydd a'r Grŵp Annibynnol gyfle i roi sylwadau ar adroddiad yr Arweinydd. Mynegodd pob un ohonynt eu diolchiadau a'u gwerthfawrogiad i bawb a oedd wedi darparu cymorth yn ystod pandemig Covid.

I gloi, diolchodd yr Arweinydd i bawb am eu cefnogaeth a thalodd deyrnged i holl staff a phreswylwyr Sir Gaerfyrddin, a phob gweithiwr 'rheng flaen' am eu hymroddiad, eu cymorth a'u cryfder dros y flwyddyn ddiwethaf.

PENDERFYNWYD nodi Adroddiad/Fideo Blynyddol yr Arweinydd ar gyfer 2020/21.

7. CADARNHAU PENODI AELODAU I BWYLLGORAU'R CYNGOR AR GYFER BLWYDDYN Y CYNGOR 2021-22

Bu'r Cyngor yn ystyried aelodaeth y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill ac aelodaeth y pwyllgorau hynny. Cadarnhaodd Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol nad oes unrhyw newidiadau ychwanegol o ran aelodaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo cyfansoddiad ac aelodaeth y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2021/22, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

8. YSTYRIED YR ENWEBIADAU A DDAETH I LAW AR GYFER PENODI CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION PWYLLGORAU/PANELAU Y CYNGOR AM FLWYDDYN Y CYNGOR 2021-22

Yn unol â Rheol 17.6 o'r Weithdrefn Gorfforaethol, bu'r Cyngor yn ystyried yr enwebiadau oedd wedi dod i law ar gyfer penodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau am Flwyddyn y Cyngor 2021/22.

Cynigiwyd ac eiliwyd yn briodol a

PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y canlynol yn cael eu penodi'n Gadeiryddion ac yn Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Rheoleiddio, y Pwyllgorau Craffu, a'r Pwyllgorau a'r Panelau Eraill am Flwyddyn y Cyngor 2021/22:-

<u>PWYLLGOR / PANEL</u>	<u>CADEIRYDD</u>	<u>IS-GADEIRYDD</u>
Y Pwyllgor Craffu - Cymunedau	I'w benodi gan y Pwyllgor	Y Cynghorydd G.B. Thomas
Y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant	Y Cynghorydd D. Price	Y Cynghorydd E.G. Thomas
Pwyllgor Craffu Diogelu'r Cyhoedd a'r Amgylchedd	Y Cynghorydd J.D. James	Y Cynghorydd A. Vaughn Owen
Y Pwyllgor Craffu – Polisi ac Adnoddau	Y Cynghorydd A.G. Morgan	Y Cynghorydd G. John
Y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd	Y Cynghorydd G. Thomas	Y Cynghorydd I.W. Davies
Pwyllgor Apêl	Y Cynghorydd J.K. Howell	Y Cynghorydd S.M. Allen
Pwyllgor Penodi A – Cyfarwyddwyr	Y Cynghorydd E. Dole	Y Cynghorydd L.M. Stephens
Pwyllgor Penodi B - Penaethiaid Gwasanaeth	Y Cynghorydd L.M. Stephens	Y Cynghorydd E. Dole
Pwyllgor y Gwasanaethau Democraataidd	Y Cynghorydd R. James	Y Cynghorydd W.T. Evans
Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed	Y Cynghorydd D.E. Williams	Heb fod yn ofynnol
Y Pwyllgor Trwyddedu	Y Cynghorydd E.G. Thomas	Y Cynghorydd D.E. Williams
Pwyllgor Penodi Aelodau	Y Cynghorydd J.M. Charles	Y Cynghorydd W.R.A. Davies
Y Pwyllgor Cynllunio	Y Cynghorydd A. Lenny	Y Cynghorydd H.I. Jones
Y Panel Adolygu Tai	Y Cynghorydd G.B. Thomas	Y Cynghorydd I.W. Davies

9. ADOLYGIAD BLYNYDDOL O'R CYFANSODDIAD

Atgoffwyd y Cyngor o'r gofyniad iddo adolygu ei Gyfansoddiad yn flynyddol a'i fod, fel rhan o'r broses honno, wedi sefydlu Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad [CRWG] i gyflwyno unrhyw newidiadau a argymhellir. Argymhellwyd y newidiadau canlynol i'r Cyngor gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad:-

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 yn cyflwyno nifer o newidiadau deddfwriaethol a byddai'r newidiadau hyn yn dod i rym ar wahanol ddyddiadau. Roedd y cyfansoddiad wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a oedd yn hysbys hyd yma.

Rhan 3.2 - Cynllun Dirprwyo i Swyddogion

Roedd y cynllun dirprwyo yn cael ei ddiweddarau ar hyn o bryd i adlewyrchu strwythur sefydliadol presennol y Cyngor ac unrhyw newidiadau deddfwriaethol. Byddai'r newidiadau hyn yn mynd i Gweithgor Adolygu'r Cyfansoddiad ar wahân ac yn destun adroddiad pellach i'r Cyngor.

Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cyngorwyr ac Aelodau Cyfetholedig (Rhan 6.1)

Yn gyfansoddiadol, cyfrifoldeb y Cyngor oedd mabwysiadu Cynllun Lwfansau'r Cyngorwyr ond bellach y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol sy'n dynodi'r cyfansymiau i'w talu gyda'r nod o ddarparu fframwaith cenedlaethol cyson o ran cydnabyddiaeth i gynghorwyr. Roedd yr adroddiad yn cynnwys penderfyniadau IRPW ar gyfer 2021/22 a oedd yn daladwy o 1 Ebrill 2021. Cyngorwyr a benodir i swyddi newydd Byddai Cyflogau Uwch/Dinesig yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael unrhyw gyflog diwygiedig o ddechrau'r flwyddyn ddinesig (19 Mai 2021).

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL

- 9.1 yn unol â'r penderfyniadau a wnaed gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, i fabwysiadu Cynllun Cyflogau a Lwfansau Cyngorwyr ac Aelodau Cyfetholedig ar gyfer 2021/22, fel y nodir yn Rhan 6.1 o'r Cyfansoddiad;
- 9.2 cymeradwyo'r newidiadau cyfansoddiadol, sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r newidiadau deddfwriaethol yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac unrhyw argymhellion ychwanegol a gyflwynwyd gan Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad;
- 9.3 bod y Swyddog Monitro yn cael ei awdurdodi i wneud unrhyw fân newidiadau, cywiro gwallau teipio neu wallau drafftio a sicrhau bod yr holl groesgyfeiriadau yn y Cyfansoddiad yn gywir ac y rhoddir gwybod am y rhain i Weithgor Adolygu'r Cyfansoddiad pan fydd angen;
- 9.4 yn amodol ar argymhellion 9.1 – 9.3 uchod, a hefyd ar yr amod bod 'Cyfrifoldeb am Swyddogaethau, Swyddogaeth D.7. 'Dyletswydd i ddarparu cymorth yn etholiadau Senedd Ewrop', bod Cyfansoddiad y Cyngor ar gyfer 2021/22 yn cael ei fabwysiadu.

CADEIRYDD

DYDDIAD

**CYNGOR
9 MEHEFIN, 2021**

**GORCHMYNION DATBLYGU LLEOL DRAFFT CANOL TREFI
RHYDAMAN A CHAERFYRDDIN**

Argymhellion Y Bwrdd Gweithredol:

- Ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law mewn perthynas â'r Gorchmynion Datblygu Lleol Drafft ar gyfer Canol Trefi Rhydaman a Chaerfyrddin.
- Cymeradwyo argymhellion yr adroddiad.
- Cymeradwyo cyflwyno'r Gorchmyn Datblygu Lleol (sy'n cynnwys argymhellion yr adroddiad hwn, a'r wybodaeth ddiweddaraf am dystiolaeth) i Lywodraeth Cymru gael cytuno arno (yn amodol ar Asesiad boddhaol o'r Effaith Amgylcheddol.
- Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r swyddogion wneud addasiadau teipograffyddol neu ffeithiol ansylweddol yn ôl yr angen, i wella eglurder a chywirdeb y Gorchmyn Datblygu Lleol a diweddarau'r sylfaen dystiolaeth a gwneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Gorchmyn Datblygu Lleol, a sicrhau bod unrhyw faterion ychwanegol o ran cydymffurfiaeth gyfreithiol hefyd yn cael eu hintegreiddio.

Y Rhesymau:

- Adlewyrchu amcanion adfywio corfforaethol, a'r cynllun adfer o ran Covid-19.
- Sicrhau bod y materion ynghylch bywiogrwydd a hyfywedd parhaus yn y Canol Trefi yn cael eu hystyried yn briodol, a defnyddio darpariaethau Polisi Cynllunio cenedlaethol yn hyn o beth.
- Nodi cwmpas Gorchmynion Datblygu Lleol a'u defnydd o ran canol trefi Caerfyrddin a Rhydaman.

Angen ymgynghori â'r Pwyllgor Craffu perthnasol NAC OES (Cyflwynwyd Gorchmynion Datblygu Lleol drafft i'r Pwyllgor Craffu - Cymunedau ac Adfywio ar 17 Rhagfyr 2020)

Angen i'r Bwrdd Gweithredol wneud penderfyniad OES

Angen i'r Cyngor wneud penderfyniad OES

YR AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO:- Y
Cynghorydd Mair Stephens, Cynllunio Strategol

Y gyfarwyddiaeth: Amgylchedd

Swyddi:

Rhifau ffôn: 01267 228659

Enw Pennaeth y Gwasanaeth:

Cyfeiriadau E-bost:

Llinos Quelch

Pennaeth Cynllunio

LQuelch@sirgar.gov.uk

Awdur yr Adroddiad: Ian
Llewelyn

Rheolwr Blaen-gynllunio

IRLlewelyn@sirgar.gov.uk

COUNCIL
9TH JUNE 2021

Draft Local Development Orders
Ammanford and Carmarthen Town Centres

1. BRIEF SUMMARY OF PURPOSE OF REPORT.

1.1 This Report sets out progress and proposals in relation to the preparation of Local Development Orders (LDO) for Ammanford and Carmarthen Town Centres, and seeks authorisation to proceed subject to supporting evidence, and Welsh Government approval to adopt.

1.2 The consultation period for the Draft LDOs commenced on the 12 January 2021 and closed on the 26 February 2021. In total some 19 duly made representations were received from a range of organisations and interested parties - details of which, along with officer responses and recommendations are set out in Appendix A of this report for decision.

2. Local Development Orders

What is an LDO?

2.1 A Local Development Order (LDO) is made by Local Planning Authority (LPA) and grants planning permission for the type of development specified within the LDO, and within a defined spatial area. It offers an LPA the opportunity to streamline the planning process by removing the need for developers/applicants to make a planning application to the LPA. This can allow an LPA to act proactively in response to locally specific circumstances within their area. As stated above, it should relate to a geographical area and should reflect the focused purpose of the LDO, and the nature of its intended outcomes. An LDO may also be permanent, or time limited depending on their objective, in this respect a time limited LDO provides for increased flexibility in fast changing and developing areas allowing for easy revision and updating, or to deliver a set objective over a fixed timescale.

2.2 Certain types of development as set out within the Town and Country Planning (General Permitted Development) Order 1995 (PDO) are already permitted without the need for planning permission. The PDO grants a general permission for various types of relatively small scale and normally non contentious development without the need to make a planning application. LDOs can therefore be seen as an extension of permitted development but decided upon locally in response to specific local circumstances.

2.3 For information an LPA can revoke an LDO at any time. Where it is proposed to modify an LDO, re-consultation may be required.

2.4 Appendix B provides further information in respect of the Legislative and Policy Framework and outlines some of the core considerations and limitations in respect of an LDO.

LDO in a Retail Context

2.5 The Welsh Government in Building Better Places: The Planning System Delivering

Resilient and Brighter Futures - Placemaking and the Covid-19 recovery clearly identified the impact of the Covid-19 lockdown on our retail and commercial centres. Town Centres largely became deserted except for those people shopping for essential items with the comparison retail sector notably impacted. In this respect supermarkets and convenience retailers became the few shops still trading, all of this at a time when components of the retail sector and certain town centres were already struggling.

2.6 Building Better Places identifies that: “The economic consequences have meant that many retailers are struggling financially, and this will lead to higher vacancy rates in all of our commercial centres. Online competition to our town centre retailers was strong before the crisis; this situation will become more apparent as more retailers increase their online presence and more people have become used to doing the majority of their non-essential shopping online.”

2.7 There is a recognition that retail and commercial centres are hubs of social and economic activity and that their function extends beyond retail providing a focal point for a diverse range of services and cultural activities/functions. These functions are often equally important in supporting the needs of local communities.

2.8 The WG in recognising the central role of retail and commercial centres state that they “should become places where a variety of retail, employment, commercial, community, leisure, health and public sector uses come together in a hub of activity to make them viable as go-to destinations once more. Flexible, local co-working spaces could also be a crucial new element to increase space to work. Residential uses are also key to the vitality of centres, provided that they do not curtail the commercial activities which take place and soundscapes are considered.”

2.9 Indeed, as the challenges to respond to the impact of Covid-19 becomes clear and as town centres reshape themselves, this would suggest that traditional retailing uses will not be as prevalent and the demand for new retail space will lessen for the foreseeable future.

2.10 Consequently, the role of primary retail areas will need to be reviewed in light of Covid-19, and this must be realistic recognising that retail occupiers will return in the way prior to the pandemic. This will require a review and reassessment of policies emerging within the Revised LDP.

2.11 It is however noted that whilst the Revised LDP is under preparation any proposals will need to be considered against the provisions of the current adopted LDP. In this respect there is a clear need to understand and respond to the impacts of Covid-19 on the future of our town centres in advance of the adoption of the Revised LDP.

2.12 This report seeks to address this interim position through the consideration and designation of LDO's for Ammanford and Carmarthen Town Centres. LDOs can contribute to local economic development and regeneration, helping make places more attractive and competitive. In town centres, LDOs can help address the problem of vacant properties to achieve more viable and vibrant centres. They can specify what is or is not an acceptable development or use or impose limitations to exclude certain developments within a use class.

2.13 It should be noted that an LDO for Llanelli Town Centre was adopted in February 2019 and remains in operation.

2.14 An LDO can contribute to local economic development and regeneration, helping make places more attractive and competitive. They simplify the planning process by removing the need for planning applications, allowing developers to progress with more speed and certainty whilst reducing costs. In town centres, LDOs can help address the problem of vacant properties to achieve more viable and vibrant centres. They can specify what is or is not an acceptable development or use or impose limitations to exclude certain developments within a use class.

2.15 An LDO can facilitate changes of use replacing many minor planning applications which are routinely approved. LDOs can be particularly effective when combined with other regeneration proposals to bring about more comprehensive improvements to centres, including as part of environmental and infrastructure enhancements. In this regard, reference is made to the Town Centre Forums that are in place for both town centres.

2.16 Since the COVID-19 outbreak, businesses within Carmarthen and Ammanford town centres have struggled, with some businesses deciding to shut down. In formulating the 2 LDOs, due regard will be given to key evidence – notably town centre retail studies undertaken pre- and post-lockdown (looking at issues such as vacancy rates, uses etc).

3. Developing an LDO – Carmarthen and Ammanford Town Centre

3.1 Whilst the adopted LDP sets a strong policy direction for retail within Carmarthenshire, the challenges facing retail centres particularly as evidence through Covid-19 requires the planning process to adopt a flexible and responsive approach in ensuring our town centres are viable and vibrant.

3.2 In this respect it is essential that Carmarthen and Ammanford are able to respond positively to the changes arising from Covid-19. There is potential to review and develop an effective strategy to promote uses to complement the town centres. In this respect it should not be predicated on an abandonment of the town centres overall retail focus, but the consideration of a flexible approach to complement activities which support the centres' vitality and viability. With the inevitable economic effects that accompany COVID-19, the adoption of LDOs for the two centres will streamline the planning process and encourage ongoing and new investment in the town centres.

4. What will the LDO Permit and its Spatial Extent

4.1 The uses permitted through the draft LDOs, is set out in the Draft Local Development Order's and Statements of Reasons available via the report to County Council on the 19th December 2020 accessible through the link below. The proposed spatial extent of the town centres to which the Draft LDO's provisions will relate is also available through the link below along with further details on the location of listed buildings and the extent of any Conservation Areas.

<https://democracy.carmarthenshire.gov.wales/mgAi.aspx?ID=28766#mgDocuments>

5. Lifetime of the LDO

5.1 It is proposed that the LDO operate for an initial period from its adoption to coincide with the anticipated adoption of the Revised LDP as outlined within the emerging Revised Delivery Agreement – August 2022. This period will however be subject to ongoing review and may be

extended or reduced subject to the progression of the Revised LDP towards adoption.

5.2 Development that commences while the LDO is in effect may be completed and/or continued after its period of operation (subject to the conditions of the LDO). Once the LDO has expired, however, no new changes of use will be allowed under its terms without conventional planning permission. Reference should be made to the content of Appendix B in relation to the legislative framework in respect of revocation and revision and the potential for compensation should an LDO be withdrawn.

6. Operation of the LDO

6.1 The LDO will be subject to a 2-stage process (Certificate of Conformity and Commencement Notice Approval).

6.2 Where a 'development' is proposed which is within the LDO area and conforms with the schedule of approved use classes (as referenced above), a Certificate of Conformity will be issued by the Council. Applicants will be required to submit their proposals and pay the nominal fee of £90 to the LPA.

6.3 A change of use cannot commence however until a Commencement Notice Approval is released by the LPA. In this respect an applicant will need to satisfy any requirements as set out in those regulatory regimes that are outside of the planning system e.g., building regulations and any required pre-conditions as set out within the LDO. A Commencement Notice Approval will not be issued where the necessary information to support the proposal has not been provided and/or where the required pre-conditions have not been met.

6.4 The processes utilised in operating the current Llanelli Town Centre LDO includes a notification system whereby key consultees (e.g., Town/Rural Councils, Dwr Cymru or Natural Resources Wales) are informed of LDO proposals. This reflects that such bodies would ordinarily be notified/consulted through the planning application process.

